Cygnor y Gweithlu Addysg

Education Workforce Council

# Cyngor y Gweithlu Addysg

# Cyfarfodydd o bell

# Cyfarfodydd o bell:
# Priodoldeb i Ymarfer

Mae'r rhan fwyaf o'n gwrandawiadau bellach yn cael eu cynnal o bell. Gwrandawiad o bell (y cyfeirir ato weithiau fel gwrandawiad rhithwir) yw un a gynhelir ar-lein, gan ddefnyddio cyswllt fideo.

Canllaw lefel uchel yw hwn.

# Cefndir

Ein cyfrifoldebau

A ninnau wedi ein sefydlu yn 2015 gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, ni yw'r rheoleiddiwr proffesiynol annibynnol mwyaf yng Nghymru ar gyfer dros 80,000 o athrawon ysgol ac athrawon addysg bellach a staff cymorth dysgu, gweithwyr ieuenctid/cymorth ieuenctid cymwys ac ymarferwyr dysgu yn y gwaith.

Mae ein nodau yn cynnwys cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith ein cofrestreion, diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy gadw Cofrestr o Ymarferwyr Addysg, a thrwy ymchwilio a gwrando honiadau o gamymddygiad, anghymhwysedd a throseddau sy'n codi amheuaeth ynghylch p'un a yw cofrestrai yn addas i barhau i ymarfer.

**Mae'r Ddeddf yn mynnu hefyd ein bod yn asesu addasrwydd personau sy'n gwneud cais i gofrestru gyda ni.**

Y Cod

Disgwylir i gofrestreion gadw at egwyddorion allweddol ein Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol.

Deddfwriaeth

Rydym wedi'n rhwymo gan y gofyniad i wrando achosion fel yr amlinellir yn Neddf Addysg (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd, a Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) 2015, fel y'i diwygiwyd.

Rydym wedi'n rhwymo hefyd gan, ac yn ymroi i, ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n benodol i Gymru, Safonau Cymru a deddfwriaeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Egwyddorion a gymhwyswn

Rydym yn cymhwyso'r un egwyddorion sylfaenol i bob achos a chyfarfod, sef egwyddorion **tegwch, effeithlonrwydd, tryloywder, didueddrwydd, cyfrinachedd** a **chyfiawnder naturiol.**

# Cyfarfod o bell

Proses

Bydd cyfarfodydd yn cael eu rheoli o bell gan ddefnyddio meddalwedd Zoom Professional, ac mae pob un o'n haelodau panel a staff wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau defnyddwyr Zoom Professional mewn da bryd i'r rheiny sy'n gysylltiedig â chyfarfod, yn cynnal galwadau prawf ymlaen llaw ymlaen llaw ac ar y diwrnod. Gwnawn hyn i sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei gynnal mor hwylus ag y bo modd, er ein bod yn derbyn y gall problemau technegol godi o hyd. Bydd rhifau deialu uniongyrchol a chyfeiriadau e-bost ein Tîm yn cael eu darparu i gyfranogwyr ymlaen llaw er mwyn helpu datrys unrhyw broblemau'n gyflym ar y diwrnod.

Byddwn yn parhau i recordio ein cyfarfodydd. Fodd bynnag, mae'n **gwbl waharddedig** i unrhyw berson arall wneud recordiad sain neu fideo, gwneud sgrin lun, tynnu llun, copïo neu rannu trafodion ein cyfarfodydd.

Gweithdrefn

Rydym yn derbyn y gall achosion cyfarfodydd o bell gymryd mwy o amser, ond fel arall mae ein proses yn parhau yr un peth fwy neu lai. Cadeirydd pwyllgor cyfarfod sy'n rheoli'r modd y caiff cyfarfod ei gynnal, ac mae'n gyfrifol am ddilyn y weithdrefn a bennwyd yn ein Gweithdrefn a Rheolau Disgyblu.

Mae cynghorwr cyfreithiol annibynnol yn eistedd gyda'r Pwyllgor i sicrhau bod y weithdrefn yn deg, ac i ddelio ag unrhyw bwyntiau cyfreithiol

Bydd ein staff yn monitro'n agos unrhyw doriadau yn y cysylltiad i unrhyw gyfranogwr, yn argymell i'r Cadeirydd bod angen gohiriad, ac yn ceisio datrys y materion hynny'n gyflym.

Darparwn ganllawiau manwl mewn da bryd i gyfranogwyr cyn y cyfarfod er mwyn paratoi.

## Rhagor o wybodaeth

Gallwch gysylltu â ni yn priodoldebiymarfer@cga.cymru

I gael gwybodaeth gyffredinol am CGA, ewch i www.cga.cymru